# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 18.01.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W. Tudor Owen, W. Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CREPERIE CAFE, 19 FFORDD CAERGYBI, BANGOR UCHAF, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Aelod lleol:** Y Cynghorydd June Marshall

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Ieuan Roberts

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais i ddyddiad i'w bennu oherwydd nad oedd yr ymgeisydd wedi presennoli ei hun yn y cyfarfod.**

**2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – GWESTY BRYN MÔR, DINAS DINLLE, CAERNARFON**

**Ar ran Gwesty Bryn Môr, Dinas Dinlle, Caernarfon:** Mr Ram Ananthraman (Ymgeisydd) a Mr Stephen Connor (Ffrind)

**Cynrychiolwyr yr Heddlu:** Arolygydd E.W. Jones a'r Rhingyll Stephen Williams

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr K. Wilson a Mrs C. Ellis

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Gwesty Bryn Môr, Dinas Dinlle, Caernarfon i wyro trwydded eiddo i ganiatau cerddoriaeth fyw a'r ddarpariaeth i greu cerddoriaeth rhwng 18.00 a 23.00 pob dydd, cerddoriaeth wedi ei recordio rhwng 10.00 a 23.00 pob dydd, darpariaeth ar gyfer dawnsio rhwng 20.00 a 23.00 pob dydd a chyflenwi alcohol rhwng 10.00 a 23.30 pob dydd gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 07.00 a 00.00 pob dydd o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Adran Safonau Masnach na'r Gwasanaeth Cynllunio unrhyw sylwadau. 'Roedd Cyngor Cymuned Llandwrog yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd ei fod wedi trigo yn yr eiddo ers oddeutu chwe blynedd. Nododd nad oedd yn fwriad ganddo i gynnal adloniant trwyddedig yno yn yr eiddo drwy'r amser ond yn hytrach 'roedd yn rhagweld tua 10 i 12 digwyddiad y flwyddyn. 'Roedd yn anfodlon derbyn y cyhuddiadau a wnaed yn llythyrau'r gwrthwynebwyr a bod nifer fawr o bobl parchus yn aros yn yr eiddo. Cadarnhaodd na ddefnyddir yr eiddo fel tafarn ac nad oedd yn caniatau cerddoriaeth uchel i ddod o'r eiddo. 'Roedd yn fodlon derbyn yr amodau a argymhellir gan yr heddlu a'r Adran Iechyd Amgylchedd. Cydnabu y bu traffethion ar un noson y llynedd sef 26 Mehefin 2010 pan gynhaliwyd noson "karaoke" yn yr eiddo. Ymddiheurodd am y digwyddiad hwnnw a chadarnhaodd na fyddai trafferthion tebyg yn digwydd eto.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd y Rhingyll Stephen Williams yr anfonwyd llythyr at yr ymgeisydd y llynedd parthed y digwyddiad ar 26 Mehefin 2010 tu allan i'r eiddo ac iddo ddelio gyda'r broblem honno drwy gyfarfod "Cam 1". 'Roedd diffyg rheolaeth wedi bod yn broblem y noson honno ac awgrymodd y dylid cael rhywun gyda chefndir trwyddedu'n bresennol yn absenoldeb y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig h.y. y perchennog. Fodd bynnag, nid oedd ganddo wrthwynebiad i'r cais ond awgrymodd y dylai amodau gael eu hatodi i'r drwydded fel a nodir yn eu llythyr.

Cadarnhaodd nad oedd yr eiddo yn "hostel mechniaeth" fel yr honnwyd, ond yn hytrach bod pobl digartref, ymysg eraill, yn aros yno a bod rhai o'r rheiny yn ddigartref gan eu bod wedi dod allan o garchar.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Nad oedd unrhyw gyfiawnhad i wyro'r drwydded oherwydd fe honodd y defnyddir yr eiddo fel hostel ar gyfer personau sydd ar fechniaeth ac ar gyfer ymwelwyr yn ogystal.
- Eu bod yn byw drws nesaf i'r eiddo dan sylw ac yn gorfod ymdopi â'r sŵn a'r ymddygiad gwrth-gymdeithasol a ddeuai oddiyno.
- Y defnyddir yr eiddo gan bobl sydd â phroblemau meddyliol, problemau gyda chyffuriau a rhai sy'n gaeth i alcohol.
- Bod llawer o ladrata wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar ac yn bennaf ers i'r eiddo dderbyn personau sydd ar fechniaeth.
- Bod yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn gysylltiedig â'r eiddo yn amharu ar ei busnes ac ar bobl eraill sy'n byw yn y pentref.
- Problemau gyda sŵn pan gynhelir nosweithiau "karaoke" yn yr eiddo.

Gadawodd yr ymgeisydd, y Rheolwr Trwyddedu, cynrychiolwyr yr heddlu a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef -

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – cymerwyd i ystyriaeth pryderon y cymdogion am rai o'r bobl oedd yn aros yn yr eiddo ac i'r honiadau a wnaed yn eu cylch. Serch hynny, 'roedd yn rhaid i'r is-bwyllgor ystyried materion oedd yn berthnasol i drwyddedu yn unig a gwneud hynny ar sail tystiolaeth. 'Roedd yn ystyriaeth bwysig nad oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais pe ychwanegwyd amodau i'r drwydded.

- Diogelwch y Cyhoedd – nid oedd unrhyw dystiolaeth perthnasol i'r amcan trwyddedu yma.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – cydnabu'r is-bwyllgor gwynion a phryderon y cymdogion am effaith sŵn yn dod o'r eiddo a thu allan, ac ystyriwyd y digwyddiad penodol ym Mehefin 2010. Unwaith eto cymerwyd i ystyriaeth nad oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais. Hefyd 'roedd yn ystyriaeth bwysig nad oedd gan yr Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad pe ychwanegwyd amodau i'r eiddo i atal sŵn rhag dianc o'r eiddo ac ymyrryd ar y cymdogion.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth perthnasol i'r amcan trwyddedu yma.

'

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Gwesty Bryn Môr, Dinas Dinlle, Caernarfon fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cerddoriaeth fyw dan baragraff E o 18.00 i 22.00 o ddydd Llun i ddydd Sul.**
**b) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio dan baragraff F o 10.00 i 22.00 o ddydd Llun i ddydd Sul.**
**c) Caniatau darpariaeth ar gyfer gwneud cerddoriaeth dan baragraff I o 18.00 i 22.00 o ddydd Llun i ddydd Sul.**
**ch) Caniatau darpariaeth ar gyfer dawnsio dan baragraff J o 20.00 i 22.00 o ddydd Llun i ddydd Sul.**
**d) Caniatau gwerthu alcohol (i'w yfed yn yr eiddo) dan baragraff M o 10.00 i 23.00 o ddydd Llun i ddydd Sul.**
**dd) Caniatau oriau agor yr eiddo i'r cyhoedd dan baragraff O o 07.00 i 23.30 o ddydd Llun i ddydd Sul.**
**e) Dim diodydd i'w cario allan o'r adeilad.**
**f) Bod deilydd trwydded bersonol yn bresennol yn yr eiddo bob amser yn ystod yr oriau agor yn absenoldeb y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig pan gynhelir gweithgareddau trwyddedig yno.**
**ff) Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan yr heddlu –**
**i) Bydd system teledu cylch cyfyng wedi ei osod ac yn gweithio'n ddigon da i'r heddlu a'r awdurdod lleol allu monitro tu mewn a thu allan i'r eiddo.**
**ii) Mae'n rhaid i'r goleuadau yn y lleoliad fod yn ddigon llachar ac o safon digon uchel i allu adnabod unigolion yn y lleoliad.**
**iii) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio delweddau ac yn eu cadw am 31 diwrnod.**
**iv) Mae'n rhaid bod nifer digonol o staff wedi eu hyfforddi ac ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig.**
**v) Caiff y system teledu cylch cyfyng ei chynnal a'i chadw gan y cwmni sy'n ei gosod neu bydd DPS/PLH yn sicrhau y cynhelir y system gan gwmni sydd wedi ei gymeradwyo.**
**vi) Os bydd unrhyw ddiffyg i'r system, mae'n rhaid i'r DPS neu'r PLH hysbysu'r awdurdod trwyddedig ac adran drwyddedu'r heddlu ar unwaith. Mae'n rhaid gwneud trefniadau i atgyweirio'r system ar unwaith, ac unwaith y digwydd hynny, mae'n rhaid hysbysu'r adrannau perthnasol pan fyddai'r system yn weithredol.**
**vii) Gallai swyddog awdurdodedig ofyn am gopi o recordiad o'r system teledu cylch cyfyng ar unrhyw adeg. Ystyrir methu â chydymffurfio â'r cais hwn yn dor difrifol o'r amod hwn.**
**viii) Gosodir arwyddion rhybudd teledu cylch cyfyng ym mannau cyhoeddus yr eiddo.**
**ix) Mae'n rhaid i'r holl recordiadau o ddigwyddiadau gael eu diogelu ar gyfer eu harchwilio gan yr heddlu.**
**x) Ni ddylai unigolion sydd heb eu hawdurdodi gael mynediad i'r system na chael gweld data personol.**
**xi) Bydd yr eiddo'n aelod o'r cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr**

**eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau Gwarchod Tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i Orchmynion Gwahardd mewn perthynas ag unigolion.**
**g) Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd –**
**i) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15 munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz o fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo drwyddedig. I bwrpas yr amod hon mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**
**iii) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1, bydd perchennog yr eiddo'n gwneud y canlynol –**

- **Gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ac amod sŵn a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn sydd wedi ei sefydlu fel uchafswm caniataeedig (gweler (iv) isod.**

**iv) Unwaith bydd lefel ar ddyfais rheoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.15am a daeth i ben am 2.30pm